# Llwybr Elidir (Sgwd Gwladus)
# The Elidir Trail (Sgwd Gwladus Waterfall)

LLWYBR TRAIL 1/2



Sgwd Gwladus

| | DECHRAU START | Tir dan draed Terrain | Y Ffactor Waw Wow Factor | Torfeydd Crowds | Amser Time | Pellter Distance |
|---|---|---|---|---|---|---|
| LLWYBR TRAIL 1 | Pontneddfechan<br>Cyfeirnod grid: SN 900076<br>Pontneddfechan<br>Grid reference: SN 900076 | 1 | 3 | 4 | 1.5 awr/ hours | 1.3 milltir/ miles (2.1 km) |
| LLWYBR TRAIL 2 | Maes parcio Pont Melin-fach<br>Cyfeirnod grid: SN 907104<br>Pont Melin-fach car park<br>Grid reference: SN 907104 | 2 | 4 | 2 | 1.5 awr/ hours | 1.2 milltir/ miles (2 km) |

**Cyflwyniad i'r teulu cyfan i Fro'r Sgydau, yn llawn o chwedlau gwerin a straeon diwydiannol.**


Llwybr 1

Mae eich taith gerdded yn dechrau ger y clwydi crand sydd i'w gweld y tu ôl i dafarn yr Angel ym Mhontneddfechan, ac mae'n dilyn llwybr da hyd at raeadr Sgwd Gwladus. Mae'r llwybr yn gymharol wastad am ei fod yn dilyn trac hen dramffordd geffylau a ddefnyddiwyd yn y gorffennol i gludo

**A family friendly introduction to Waterfall Country, rich in folklore and industrial tales.**

Walk 1

Your walk starts at the ornate gates behind the Angel pub in Pontneddfechan and follows a good path to Sgwd Gwladus waterfall. The path is relatively level as it follows in the tracks of a horse-drawn tramroad once used by 'drams' to carry silica rock down to the brickworks




dramiau yn llawn cerrig silica i lawr i'r gwaith brics ger Camlas Nedd. Heddiw gallwch weld rhai o fynedfeydd y pyllau o hyd.

### Llwybr 2

Os hoffech fynd am dro ychydig yn fwy mentrus, dechreuwch ym maes parcio Pont Melin-fach a dilynwch afon Nedd Fechan i lawr at Sgwd Gwladus. Mae'r llwybr yn fwy cul, yn fwy serth ac yn fwy anodd dan draed, ond mae'n werth gwneud yr ymdrech.

Yn y chwedl frodorol, mynach ifanc dan hyfforddiant oedd Elidir, a gam-driniwyd am fod yn ddiog. Rhedodd Elidir i ffwrdd o'i abaty, a daeth y tylwyth teg o hyd iddo, a mynd ag ef i'w teyrnas nhw. A yw'r fynedfa i wlad y tylwyth teg yn cuddio ar hyd glannau Llwybr Elidir?

Enwir Sgwd Gwladus ar ôl tywysoges Geltaidd, Gwladus, a foddodd ei hun pan wrthododd ei thad, y brenin, iddi gael priodi'i chariad. Ymddangosodd y rhaeadr drwy hud a lledrith o'r fan ble diflannodd hi o dan y dŵr rhewllyd.

Psst… i gael taith sy'n denu'r teulu cyfan, beth am lawrlwytho'r llwybr sain ac ymuno â Gwladus ar antur.

beside the Neath Canal. Today you can still see some of the entrances to the mines.

### Walk 2

If you'd like a more adventurous walk, start at Pont Melin-fach car park and follow the Nedd Fechan river downstream to Sgwd Gwladus. The route is narrower, steeper and more difficult underfoot but well worth the effort.

In Welsh myth, Elidir was a young trainee monk cruelly treated for being lazy. He fled from his abbey, was found by the fairy folk and then taken to their own world. Is that entrance to the fairy kingdom hidden along the banks of the Elidir Trail?

Sgwd Gwladus is named after the Celtic princess, Gwladus who drowned herself when her father, the king, forbade her to marry her lover. The waterfall magically appeared where she entered the icy water.

Psst… for a family-friendly walk download the audio trail and join Gwladus on an adventure.

www.breconbeacons.org/audiotrails